Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Fawrth 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Clifford Williams, Anwen Humphreys – Garndolbenmaen, Richard Williams – Prenteg, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Megan Ll Williams Amanda N Owen – Golan, Dafydd Thomas, Gwenno Huws – Penmorfa.

2 Ymddiheuriadau – Maldwyn Owen, Gwilym Evans, Meinir Raine, Eifion Williams, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 7/2/19 Richard Williams yn datgan eu cywirdeb a Clifford Williams yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Tai Bro Gwgan - dim ateb.

Archwiliad Allanol – dim ateb.

Penmorfa – arwydd 'VAS'. Derbyniwyd e-bost gan Adran Rheoli'r Rhwydwaith Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru. Eglurwyd bod yr Adolygiad Terfyn Cyflymder Cefnffyrdd diwethaf wedi argymell y dylid gosod marciau cylchol 30 m.y.a. sefydlog ar y lôn gerbyd i'r pentref i wella cydymffurfiaeth a'r terfyn cyflymder. Nid oedd yr asesiad yn argymell gosod 'VAS'. Mae'r Adolygiad Terfyn Cyflymder yn broses barhaus a bydd pryderon y Cyngor Cymuned yn cael eu hystyried pan adolygir y rhan hon o'r A487 nesaf.

Biniau Garndolbenmaen a Phrenteg - y cais wedi ei drosglwyddo i'r Adran Gorfodaeth Stryd. Clerc i holi eto.

Mynwent Bethel - contractwyr yn casglu'r sbwriel unwaith y mis.

Lloches Bws Pentrefelin - swyddog Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y mater i ffwrdd o'i gwaith.

Polisi Gosod Tai - derbyniwyd esboniad llawn o be olygir gyda'r termau 'cyswllt Gwynedd' a 'chyswllt cymunedol' .

Lledu'r ffordd o Garndolbenmaen i'r A487- Derbyniwyd ateb gan Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd. Cafodd astudiaeth o'r ffordd ei gwblhau yn 2006 fel rhan o'r 'Cynllun Lledu Ffyrdd Lleol'. Mae'r gronfa ariannol ar gyfer y cynllun wedi dod i ben ac mae'n annhebygol yn yr hinsawdd ariannol bresennol y bydd y gronfa yn cael ei ail sefydlu. Trafodwyd fod y tyfiant naill ochor i'r lôn yn uchel ac yn rhwystr i yrwyr weld ceir sy'n dod o'r cyfeiriad arall. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi os yw'n bosib trefnu cyfarfod safle i edrych ar y tyfiant.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Delyth Evans y cyfarfod.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel

Drws y cwt ar agor. Cynghorydd Gwenno Huws am fynd yno i weld beth sydd angen ei wneud i'w hatgyweirio.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Dim i'w adrodd.

9 Adroddiad Pentrefi

Golan

Gosodiad yr arwydd ar dop lôn Tabor yn golygu fod rhaid tynnu allan i weld y lôn fawr.

Angen ysgubo lôn Llidiart y Cwpwl.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Penmorfa
Sbwriel wedi ei daflu ar lôn Tyn Llan wrth y fynedfa i'r goedwig.
Cynghorydd Gwenno Huws am gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Garndolbenmaen

Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen - Mae'r gymdeithas yn cael cymorth gyda cheisiadau am grantiau ac i addasu'r cynllun busnes. Y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn yr ysgol nos Iau, 14eg o Fawrth.

10 Archwilydd Mewnol

Mae angen adnewyddu'r cytundeb gydag Archwilydd Mewnol y Cyngor. Clerc i gysylltu gyda A Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni.

11 Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Ystyriwyd y penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Penderfyniad 40: Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau. Mae'r taliad o £150 yn orfodol ar gyfer pob aelod oni bai iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd.

Penderfyniad 42: Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau. Amanda N Owen yn cynnig fod y Cyngor yn gwrthod y penderfyniad a Clifford Williams yn eilio.

Penderfyniad 43: Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 44: Lwfans ar gyfer arhosiad dros nos. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 45: Digolledu am golled ariannol, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd. Gwenno Huws yn cynnig fod y Cyngor yn derbyn y penderfyniad a Dafydd Thomas yn eilio.

Penderfyniad 46: Ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 47: Gall cynghorau cymuned ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i gadeirydd y cyngor. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

Penderfyniad 48: Gall cynghorau cymuned ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth i ddirprwy cadeirydd y cyngor. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

Bydd manylion unrhyw daliadau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

12 Ffioedd Claddu

Penderfynwyd trefnu cyfarfod arbennig i drafod y ffioedd. Clerc i gysylltu gyda'r torrwr beddau i gael y prisiau cyfredol am agor beddau.

13 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Mon – ymgynghoriad cyhoeddus canllawiau cynllunio atodol. Er gwybodaeth.

Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – dogfen ymgynghori. Er gwybodaeth.

b CHC – Arolwg Cymru Gyfan – Gwasanaeth tu allan i oriau meddygon. Poster wedi ei roi ar y safle we.

c Cynrychiolydd Unllais Cymru ar grŵp budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr.

ch Cyflwyniad archwilwyr allanol

Ychwanegwyd

E-bost Theatr Bara Caws – manylion ei cynhyrchiad diweddaraf.
Llythyrau diolch am roddion ariannol – Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog, Eisteddfod Garndolbenmaen, Neuadd Garndolbenmaen, Llyfrau Llafar Cymru, Canolfan Prenteg, Cylchwyl Lenyddol a Cherddorol Glannau Dwyfach, Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen, Canolfan Pentrefelin.

14 Cynllunio

Rhestrau 11/2/, 19/2/, 22/2/19. Ychwanegwyd 5/3/19.

Ceisiadau Cynllunio – dim.

15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Trafod yn Chwefror 2020.

Monitro'r gyllideb: adroddwyd bod gorwariant wedi digwydd ar yswiriant. Y swm dyledus yn fwy na'r disgwyl. Nid yw hyn wedi cael effaith ar y cyfanswm cyllid a glustnodwyd am y flwyddyn ariannol. Mae tan wariant wedi bod ar rhai costau eraill.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 59.40
Rhent Canolfan Golan	=	£240.00
Aelodaeth Unllais Cymru	=	£208.00

Ychwanegwyd:
Trosglwyddo arian Gwarchod Cymdogaeth Criccieth i Gronfa Diffibriliwr Pentrefelin £710.44.

Derbyniadau: Cyngor Gwynedd ad-daliad llwybrau cyhoeddus £886.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,801.00 Cyfredol £5854.51

16 <u>Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan</u>

- Lledu lôn Capel Isaf Garndolbenmaen.
- Sbwriel Penmorfa

Gwefan – CHC – Arolwg Cymru Gyfan – Gwasanaeth tu allan i oriau meddygon.